# Dathlu Nyrsio a Bydwreigiaeth yng Nghymru

Adroddiad Grŵp Llywio Nursing Now Cymru/Wales,
Gorffennaf 2021

Nursing now
Cymru/Wales


DARAY
GIG
NHS

**Gyda diolch i aelodau o Grŵp Llywio Nursing Now Cymru/Wales a'r rhai a gyfrannodd at yr adroddiad hwn:**

**Rhiannon Beaumont-Wood**, Cadeirydd, Nursing Now Cymru Wales / Cyfarwyddwr Gweithredol QNAHPs (y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol), Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Andrew Bell**, Rheolwr Rhaglenni - Ymgyrch Genedlaethol dros Ofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar, Gofal Cymdeithasol Cymru

**Angela Gorman MBE**, Prif Swyddog Gweithredol, Life for African Mothers

**Annie Evans**, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion, Ymddiriedolaeth GIG Felindre

**Annie Petherick**, Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Tîm Gwella Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Aron White**, Safonau Nyrsio Uwch a Rheoleiddio Proffesiynol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Becky Gammon**, Safonau Nyrsio Uwch a Rheoleiddio Proffesiynol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Yr Athro Billie Hunter CBE**, Athro Bydwreigiaeth / Cyfarwyddwr yr RCM, Prifysgol Caerdydd (Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth)

**Caroline Whittaker RRC OStJ**, Arweinydd Ansawdd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Dr Carolyn Middleton MBE**, Tîm Nyrsio Corfforaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB), Athro Gwadd Prifysgol De Cymru. Aelod o Fwrdd Cymru, Coleg Nyrsio Brenhinol

**Dawn Parry**, Arweinydd Prosiect Pediatreg, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

**Denise Lowry**, Pennaeth Ymgysylltu Iechyd a Gofal, Hyb Gwyddorau Bywyd Cymru

**Diane Powles**, Cyfarwyddwr Cyswllt - Polisi Nyrsio ac Ymarfer Proffesiynol, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

**Eleri Lloyd-Burns**, Cyfarwyddwr Cynorthwyol QNAHPs, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Dr Emma Tonkin**, Athro Cysylltiol (Gofal Iechyd Genomig), Prifysgol De Cymru

**Gillian Knight**, Swyddog Nyrsio, Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru

**Grace Thomas FRCM**, Darllenydd mewn Bydwreigiaeth / Bydwraig Arweiniol dros Addysg / Dirprwy Gyfarwyddwr Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth, Prifysgol Caerdydd

**Jayne Cutter**, Pennaeth yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe

**Jean Davies**, Darlithydd mewn Nyrsio, Prifysgol Bangor

**Yr Athro Emeritws Joyce Kenkre**, Athro Emeritws Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol De Cymru

**Professor Joy Merrell**, Nyrsio Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol Abertawe

**Judith Benbow**, Uwch Ddarlithydd, Arweinydd Symudedd Myfyrwyr Rhyngwladol / Myfyriwr PhD, Prifysgol Caerdydd

**Kerri Eilertsen-Feeney**, Pennaeth Nyrsio a Thrawsnewid Bydwreigiaeth, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

**Dr Kathrin Thomas**, Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica, Teml Heddwch

**Dr Lesley Jones**, Pennaeth Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Lynne Jones**, Pennaeth Addysg Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

**Yr Athro Louise Condon**, Cadeirydd Nyrsio, Prifysgol Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe

**Mandy Davies**, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a Gwella Ansawdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Paula Mitchell**, Hwylusydd Gwella Ansawdd ac Effaith, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Paula Hopes**, Nyrs Ymgynghorol ar gyfer Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

**Richard Desir**, Cyfarwyddwr Nyrsio Clinigol ar gyfer Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Dr Richard Kyle**, Dirprwy Bennaeth Ymchwil a Gwerthuso, Ymchwil a Gwerthuso, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Dr Ruth Davis**, Cymrawd Gwadd, Prifysgol De Cymru

**Trevor Hubbard**, Cyfarwyddwr Nyrsio - Ardal Ganolog, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Yr Athro Dianne Watkins OBE**, Dirprwy Bennaeth Ysgol / Aelod Annibynnol, Prifysgol Caerdydd / Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan


**Wendy Herbert**, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

# Pum thema lefel-uchel ar gyfer Nursing Now Cymru/Wales

## Themâu Lefel-Uchel

**Iechyd Gwell**
Meithrin cydnerthedd a hyrwyddo llesiant yn ein myfyrwyr a'n cofrestreion.

**Nursing Now Cymru/Wales**




**Iechyd Gwell**
Cynyddu a gwella'r dasg o ledaenu arferion nyrsio effeithiol ac arloesol er mwyn ysgogi cysondeb o ran eu mabwysiadu ar draws y system.



**Iechyd Gwell**
Paratoi myfyrwyr a chefnogi nyrsys a bydwragedd i gydnabod eu rôl a'u cyfrifoldeb wrth gyfrannu at ddulliau ataliol, gan wella deilliannau iechyd i unigolion a'r boblogaeth.

**Economïau Cryfach a Mwy o Gydraddoldeb Rhwng y Rhywiau**
Mynd ati'n weithredol i annog a chynyddu amrywiaeth mewn nyrsio a bydwreigiaeth, er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a hyrwyddo datblygiadau cymdeithasol ac economaidd.

**Iechyd Gwell, Economïau Cryfach a Mwy o Gydraddoldeb Rhwng y Rhywiau**
Cryfhau ac adeiladu arweinyddiaeth a dylanwadu ar allu ar bob lefel.

# Cynnwys


**Rhagair** **6**

**Cyflwyniad** **8**

Mudiad byd-eang 8

Pam roedd angen ymgyrch fyd-eang arnom 8

Llunio cynllun ar gyfer Nursing Now Cymru/Wales 9

Pum thema lefel-uchel ar gyfer Nursing Now Cymru/Wales 9

**Thema 1: Meithrin cydnerthedd a hyrwyddo llesiant yn ein myfyrwyr a'n cofrestreion** **11**

Adeiladu darlun clir o lesiant cyfredol 11

Archwilio cydnerthedd mewn nyrsio cyfoes 12

Dull parhaus o hyrwyddo llesiant 13

**Thema 2: Paratoi myfyrwyr a chefnogi nyrsys a bydwragedd i gydnabod eu rôl a'u cyfrifoldeb wrth gyfrannu at ddulliau ataliol gan wella deilliannau iechyd i unigolion a'r boblogaeth** **15**

Datblygu'r cwricwlwm ar gyfer nyrsio 15

Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif 15

Ysgoloriaethau/Cymrodoriaethau Nightingale yng Ngogledd Cymru 16

**Thema 3: Mynd ati'n weithredol i annog a chynyddu amrywiaeth mewn nyrsio a bydwreigiaeth, er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a hyrwyddo datblygiadau cymdeithasol ac economaidd** **17**

Cefnogi a datblygu nyrsys o gymunedau ethnig lleiafrifol 17

Dylanwadu ar waith y llywodraeth ynghylch gweithredu cydraddoldeb 18

Pennod podlediad ar amrywiaeth mewn nyrsio 18

Hyrwyddo Mis Hanes Pobl Dduon 18

Y gynhadledd "Beyond the Bump" 18

Archwilio mynediad i hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff o leiafrifoedd ethnig 19

Recriwtio myfyrwyr nyrsio o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli 19

Cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru yr RCN 19

**Thema 4: Cryfhau a meithrin arweinyddiaeth a dylanwadu ar allu ar bob lefel** **21**

Creu Cymru iachach 21

Cefnogaeth genedlaethol i ddatblygu talent arweinyddol ym maes nyrsio yng Nghymru 21

Academi Arweinyddiaeth Myfyrwyr Prifysgol Abertawe 22

Her Nightingale 23

Ymrwymiad i bwysigrwydd nyrsio mewn ardaloedd gwledig ar draws y byd 23

Hyrwyddo arweinyddiaeth nyrsio yn Affrica 24

Cyfeillio â nyrsys yn Namibia 24

Sefydlu Uned Datblygu Ymarfer ym Malawi 25

Rhaglen datblygu arweinyddiaeth yn Ghana 25

Archwilio anghenion datblygu arweinyddiaeth yn Wganda 26

Cymorth mentora yn Lesotho 28

**Thema 5: Cynyddu a gwella'r dasg o ledaenu arferion nyrsio effeithiol ac arloesol er mwyn ysgogi cysondeb o ran eu mabwysiadu ar draws y system** **29**

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth 29

Offeryn Asesu Bydwreigiaeth ar gyfer Addysg 29

Recriwtio cenhedlaeth o nyrsys anabledd dysgu ar gyfer y dyfodol 30

Menter dyfarnu broffesiynol 31

Nyrsys yn rhoi datblygiadau mewn genomeg ar waith 31

**Casgliad** **33**

Myfyrio ar ein cyflawniadau 33

Beth sydd nesaf? 33

**Cyfeiriadau** **34**


Lluniwyd delweddau'r adroddiad hwn cyn pandemig COVID-19

# Rhagair



Rhiannon Beaumont-Wood

Ar ran Grŵp Llywio Nursing Now Cymru/Wales, rwy'n falch o gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n crynhoi ein cyfraniad i'r mudiad byd-eang ysbrydoledig a'i ymdrechion i godi proffil a statws nyrsio ar draws y byd. Mae Adroddiad Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Iechyd Byd-eang o'r enw Triple Impact Report yn sail i'r mudiad, a nododd y byddai datblygu nyrsio yn arwain at well iechyd, mwy o gydraddoldeb rhwng y rhywiau a thwf economaidd.

Crëwyd y Grŵp Llywio yn dilyn cais a wnaed gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru i sefydlu Grŵp Nursing Now ar gyfer Cymru, dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd yn cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau GIG Cymru, arweinwyr nyrsio o Brifysgolion Cymru, y Coleg Nyrsio Brenhinol, Coleg Brenhinol y Bydwragedd a chynrychiolwyr y trydydd sector. Y dasg gyntaf oedd nodi pa agweddau ar bolisi ac ymarfer nyrsio y dylid canolbwyntio arnynt, ac arweiniodd hynny at nodi pum thema oedd yn gydnaws â *Chymru Iachach* Llywodraeth Cymru a'r *Triple Impact Report*.

Lansiwyd y Grŵp Nursing Now Cymru/Wales yn ffurfiol yn adeilad Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd ar 29 Mawrth 2019, gyda chefnogaeth yr Athro Jean White (Prif Swyddog Nyrsio Cymru) a Lisa Bayliss Pratt (cynrychiolydd ymgyrch fyd-eang Nursing Now).

Yn dilyn y lansiad, canolbwyntiodd y grŵp hwn ar harneisio a dathlu enghreifftiau o ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth. Fe wnaethon ni gydnabod eu bod wrth wraidd y mwyafrif o dimau iechyd, a'u bod yn chwarae rhan hanfodol i wella a thrawsnewid gwasanaethau iechyd, hybu iechyd ac atal a lleihau effaith afiechyd. Mae nyrsys a bydwragedd yn sicrhau bod y gofal sy'n cael ei ddarparu yn dosturiol ac o safon uchel, yn unol â disgwyliadau ein cleifion a'n dinasyddion.

Trwy gefnogi'r ymgyrch hon, fe wnaethon ni nodi a rhannu arferion gorau ac arloesol sy'n hyrwyddo'r rôl werthfawr a gyflawnir gan nyrsys a bydwragedd yng Nghymru. Trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn, rydyn ni'n gobeithio codi proffil a statws nyrsio a bydwreigiaeth ymhellach yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Yn 2019, dynododd Sefydliad Iechyd y Byd yn ei 72ain Gynulliad mai 2020 fyddai "Blwyddyn y Nyrs". Ychydig a wyddem fod COVID-19 ar y gorwel. Yn anochel, mae'r pandemig byd-eang wedi cael effaith ar bob un o'n cynlluniau, ac mae gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ledled y byd wedi ysgwyddo baich COVID-19 yn fwy na'r rhan fwyaf o bobl. Mae cydnerthedd, tosturi ac arweinyddiaeth yn werthoedd a hyrwyddir gan yr ymgyrch Nursing Now, ac mae eu hangen arnom yn awr yn fwy nag erioed.

Yn ddiweddar, gadawodd yr Athro Jean White ei rôl fel Prif Swyddog Nyrsio Cymru ar ôl degawd yn y swydd, ond bu hi'n allweddol yn y dasg o sefydlu gwaith Nursing Now Cymru/Wales. Mae'r dyfyniad hwn gan Jean yn crynhoi pwysigrwydd arweinyddiaeth yng Nghymru a ledled y byd.

"Rhaid ichi gael sedd wrth y bwrdd i ddylanwadu ar y modd y mae gwasanaethau'n cael eu datblygu ... a'r modd y mae arferion yn gweithio. Ac os nad oes gennych chi sedd, ewch i mo'yn cadair a'i gosod wrth y bwrdd, a gwnewch yn siŵr fod eich llais yn cael ei glywed."

Mae ymgyrch Nursing Now Cymru/Wales wedi arddangos y manteision o ddod at "y bwrdd rhithwir". Cawsom ein hysbrydoli ym mhob cyfarfod gan y pethau gwych y mae nyrsys a bydwragedd yng Nghymru yn eu gwneud. Bu'n brofiad wirioneddol ddyrchafol i gael man diogel lle gellid annog lleisiau nyrsio a bydwreigiaeth i rannu arferion gorau, cynhyrchu a rhannu gwybodaeth newydd, canolbwyntio ar faterion pwysig megis cydnerthedd sy'n effeithio ar nyrsys a bydwragedd y dyfodol, a harneisio'r ystod lawn o bynciau a chyfleoedd i fod yn fwy effeithiol.



Rwy'n falch iawn fy mod wedi cael cyfle i dreulio amser gyda chydweithwyr yng Nghymru i gyfrannu at themâu ymgyrch Nursing Now Cymru/Wales ac at weledigaeth yr ymgyrch fyd-eang i gael poblogaeth iachach ar draws y byd. Nyrsys a bydwragedd yw asgwrn cefn systemau iechyd a gofal y byd, ac maen nhw'n haeddu gwybod eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr am yr holl waith a gyflawnant mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau a lleoliadau.

Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol inni fod yn wlad "sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang". Pa ffordd well o ddangos ein hymrwymiad i nyrsys a bydwragedd y byd na thrwy rannu ein hadroddiad.

**Rhiannon Beaumont-Wood**

Cadeirydd Nursing Now Cymru/Wales a Chyfarwyddwr Gweithredol QNAHPs (y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol), Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cyflwyniad

## Mudiad byd-eang

Nod yr ymgyrch Nursing Now oedd gwella iechyd yn fyd-eang trwy godi proffil a statws nyrsys ledled y byd, gan ddylanwadu ar lunwyr polisi a chefnogi nyrsys eu hunain i arwain, dysgu ac adeiladu mudiad byd-eang.

Canolbwyntiodd ymgyrch fyd-eang Nursing Now ar bum maes craidd:

- **Sicrhau bod gan nyrsys a bydwragedd lais mwy amlwg wrth lunio polisïau iechyd**
- **Annog mwy o fuddsoddiad yn y gweithlu nyrsio**
- **Recriwtio mwy o nyrsys i swyddi arweiniol**
- **Cynnal ymchwil sy'n helpu i benderfynu lle gall nyrsys gael yr effaith fwyaf**
- **Rhannu arferion nyrsio gorau**

Roedd yr ymgyrch tair blynedd (2018-2020) yn un o raglenni Ymddiriedolaeth Nyrsio Burdett. Fe'i trefnwyd mewn cydweithrediad â Sefydliad Iechyd y Byd a Chyngor Rhyngwladol Nyrsys, ac fe'i cefnogwyd gan Fwrdd Ymgyrch sy'n cynnwys nyrsys a rhai nad ydynt yn nyrsys o bob cwr o'r byd.

Yn ystod y tair blynedd ers ei lansio, tyfodd Nursing Now i fod â phresenoldeb mewn 126 o wledydd a gyda thros 700 o grwpiau gweithredol ledled y byd. At hynny, yn 2019, lansiodd Nursing Now yr Her Nightingale (a elwir bellach yn Her Nursing Now) gan ysbrydoli dros 700 o gyflogwyr iechyd i ddatblygu sgiliau arwain dros 30,000 o nyrsys a bydwragedd yn gynnar yn eu gyrfaoedd.


Mae'r ymgyrch wedi creu cynghreiriau a chysylltiadau â phartneriaid sydd wedi uno i rannu'r neges fod angen buddsoddi mewn nyrsio i wella gofal iechyd i bawb.

Daeth yr ymgyrch i ben ym mis Mai 2021 ond bydd etifeddiaeth Nursing Now yn parhau drwy'r Her Nursing Now a thrwy waith parhaus ei rwydwaith grŵp.

## Pam roedd angen ymgyrch fyd-eang arnom

Datblygwyd yr ymgyrch Nursing Now mewn ymateb i ganfyddiadau'r *Triple Impact Report*[1], a ddaeth i'r casgliad y byddai grymuso nyrsys yn cyfrannu at fwy o gydraddoldeb rhwng y rhywiau ac economïau cryfach yn ogystal â gwella iechyd yn fyd-eang.

Mae gwledydd ledled y byd yn wynebu heriau enfawr i sicrhau gofal iechyd o safon. Mae adnoddau prin, y cynnydd mewn afiechydon cronig, ac effaith ffactorau datblygol megis newid yn yr hinsawdd, ymfudo a phoblogaethau sy'n heneiddio, yn rhoi systemau iechyd dan straen. Yn ychwanegol, mae'r prinder byd-eang o weithwyr iechyd yn golygu nad oes digon o bobl broffesiynol wedi'u hyfforddi i fynd i'r afael â'r bygythiadau hyn, ac mae hynny'n cynnwys nyrsys - bydd angen 9 miliwn yn fwy o nyrsys a bydwragedd erbyn 2030.




Nid yn unig y mae angen mwy o nyrsys a bydwragedd arnom, mae angen inni ddatblygu mathau newydd ac arloesol o wasanaethau. Bydd dyfodol gofal iechyd yn fwy seiliedig ar gymunedau a chartrefi, yn fwy cyfannol ac yn canolbwyntio'n fwy ar bobl, gyda rhagor o ffocws yn cael ei roi ar fesurau ataliol ac ar wneud gwell defnydd o dechnoleg. Mae hyn yn golygu y bydd gan nyrsys rôl hyd yn oed yn fwy i'w chwarae ym maes gofal iechyd y dyfodol. Fodd bynnag, er mwyn gwneud y mwyaf o gyfraniadau nyrsys, bydd angen eu defnyddio, eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn briodol wrth lunio polisïau a phenderfyniadau.


Gall buddsoddi i wella amodau gwaith, hyfforddiant a sgiliau arwain y nyrsys gyflawni'r "effaith driphlyg" o wella iechyd, sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng y rhywiau a

chryfhau economïau lleol. Mae cynyddu potensial nyrsys a bydwragedd i'r eithaf yn hanfodol i gyflawni'r nod o ddarparu iechyd i bawb ac i sicrhau bod mynediad at wasanaethau gofal iechyd o safon ar gael iddynt ym mhob man.

## Llunio cynllun ar gyfer Nursing Now Cymru/Wales

Ar gais yr Athro Jean White, Prif Swyddog Nyrsio Cymru ar y pryd, sefydlwyd Grŵp Llywio 2020 Nursing Now Cymru/Wales ym mis Tachwedd 2018 a'i lansio'n ffurfiol ar 29 Mawrth 2019. Ei bwrpas oedd amlygu ac arddangos cydweithrediad ar draws y sector gan rannu a hyrwyddo arferion gorau ym maes nyrsio a bydwreigiaeth ledled Cymru.

Gofynnwyd i Gyfarwyddwr Gweithredol QNAHPs o Iechyd Cyhoeddus Cymru arwain gyda chefnogaeth ychwanegol gan gydweithwyr cydnabyddedig. Gyda'i gilydd, fe wnaethant ddarparu goruchwyliaeth, arweinyddiaeth a chyfeiriad i Nursing Now Cymru/Wales yn ystod yr ymgyrch dan sylw.



Roedd aelodaeth Grŵp Nursing Now Cymru/Wales yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r sectorau a'r lleoliadau iechyd a gofal yng Nghymru, e.e. byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, cyrff proffesiynol, sefydliadau addysgol a sefydliadau trydydd sector.

Datblygodd a chytunodd y grŵp ar bum thema i arwain ymgyrch Nursing Now yng Nghymru – fe'u llywiwyd gan themâu'r ymgyrch fyd-eang ac yng nghyd-destun y wlad hon, y ddogfen Cymru Iachach.

1. Meithrin cydnerthedd a hyrwyddo llesiant yn ein myfyrwyr a'n cofrestreion.
2. Paratoi myfyrwyr a chefnogi nyrsys a bydwragedd i gydnabod eu rôl a'u cyfrifoldeb wrth gyfrannu at ddulliau ataliol, gan wella deilliannau iechyd i unigolion a'r boblogaeth.
3. Mynd ati'n weithredol i annog a chynyddu amrywiaeth mewn nyrsio a bydwreigiaeth, er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a hyrwyddo datblygiadau cymdeithasol ac economaidd.
4. Cryfhau ac adeiladu arweinyddiaeth a dylanwadu ar allu ar bob lefel.
5. Cynyddu a gwella'r dasg o ledaenu arferion nyrsio effeithiol ac arloesol er mwyn ysgogi cysondeb o ran eu mabwysiadu ar draws y system.

Mae'r themâu hyn yn cyd-fynd â nodau'r ymgyrch fyd-eang, ac yn cyd-fynd â'r Model Effaith Driphlyg sy'n dangos y modd y gellir gwella iechyd, hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chefnogi twf economaidd trwy ddatblygu nyrsio.

Roedd y pum thema hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau nyrsio a bydwreigiaeth y Prif Swyddog Nyrsio a Chyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio Cymru, ac yn darparu fframwaith clir ar gyfer cynllunio datblygiadau i'r dyfodol a'u gwneud yn gydnaws â gwaith presennol yr ymgyrch Nursing Now. Crëwyd tudalen we bwrpasol fel y gellid rhannu adnoddau a lledaenu gwybodaeth am Nursing Now Cymru/Wales.[2]


## Pum thema lefel-uchel ar gyfer Nursing Now Cymru/Wales

Ar y tudalennau canlynol, rydyn ni'n crynhoi'r hyn a gyflawnwyd gennym ym mhob un o'r pum thema.



# Thema 1: Meithrin cydnerthedd a hyrwyddo llesiant yn ein myfyrwyr a'n cofrestreion

## Iechyd gwell




Cydnerthedd yw'r gallu i ganolbwyntio a bod yn bositif wrth wynebu sefyllfaoedd niweidiol - nodwedd hanfodol i nyrsys sy'n gweithio yn ein system gofal iechyd cymhleth, yn enwedig ers dyfodiad pandemig COVID-19 ar ddechrau 2020.

Fodd bynnag, mae nyrsio yn broffesiwn sy'n pwyso'n drwm ar y corff a'r emosiynau, ac mae nyrsys yn aml mewn perygl o ddioddef stres a lludded. Mae angen rhoi cefnogaeth a sgiliau i staff nyrsio er mwyn iddynt fedru gofalu amdanyn nhw eu hunain, yn ogystal ag eraill. Dangoswyd bod gwella cydnerthedd a llesiant staff yn cael effaith gadarnhaol ar ofal cleifion. Mae hefyd yn helpu staff i fod yn iach ac yn hapus yn eu rolau, ac i symud ymlaen yn broffesiynol er gwaethaf yr amgylchedd cymhleth a thra chyfnewidiol y maen nhw'n gweithio ynddo.

## Adeiladu darlun clir o lesiant cyfredol

Yn 2020, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad[3] ar iechyd a llesiant cyfredol y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru. Roedd hyn yn seiliedig ar arolwg manwl o staff yng Nghymru, a gynhaliwyd cyn i bandemig COVID-19 daro.

Gweithiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn agos gyda'r Coleg Nyrsio Brenhinol a Choleg Brenhinol y Bydwragedd i redeg yr arolwg ar-lein, gan lwyddo i gasglu barn 1,642 o nyrsys, bydwragedd a gweithwyr cymorth gofal iechyd ledled Cymru.

Mae tri chwarter o nyrsys a bydwragedd Cymru a arolygwyd yn teimlo bod ganddynt yrfa werth chweil, ac mae dros ddwy ran o dair yn frwdfrydig am eu swydd - ond roedd llawer yn rhannu'r pwysau yn y gweithle a'r pwysau ariannol maent yn ei wynebu.

### Prif ganfyddiadau

- Roedd 75% yn teimlo bod eu galwedigaeth yn werth chweil ac roedd 69% yn frwdfrydig am eu swydd. Byddai 55% yn argymell gyrfa ym maes nyrsio, bydwreigiaeth neu weithiwr cymorth gofal iechyd i eraill.
- Roedd 80% yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan gleifion ac roedd 70% yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan deuluoedd cleifion – ond dim ond 42 oedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan uwch aelodau o staff.
- Nododd 62% eu bod yn dioddef o stres sy'n gysylltiedig â gwaith. Roedd stres sy'n gysylltiedig â gwaith ar ei uchaf ymhlith menywod a staff iau, a'r rhai ym Mandiau Cyflog 5 a 6 y GIG.
- Nododd 14% lesiant meddyliol isel a nododd 37% eu bod yn cael trafferth ymlacio. Roedd llesiant meddyliol yn waeth ymhlith aelodau iau o'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth.
- Roedd 61% wedi mynd i'r gwaith pan oeddent yn teimlo'n sâl ddwywaith neu'n fwy yn y 12 mis diwethaf.

### Argymhellion

Awgrymodd yr adroddiad bedwar maes allweddol ar gyfer gweithredu yn y dyfodol:

1. Datblygu a chynnal amgylcheddau gwaith cefnogol i wella deilliannau i staff a chleifion, gan ganolbwyntio ar gefnogi llesiant meddyliol y gweithlu a chryfhau'r gwaith o atal afiechyd.
2. Cydnabod a gwerthfawrogi'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth.
3. Deall achos sylfaenol pwysau ariannol.
4. Canolbwyntio cefnogaeth ar aelodau iau'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth, a'r rhai sy'n cael eu cyflogi ar Fandiau Cyflog 5 a 6 y GIG.

"Rydyn ni'n gwybod bod y gweithle'n chwarae rhan allweddol yn ein hiechyd a'n llesiant. Os gwneir ymdrechion i gwrdd â rhai o'r heriau a amlygir yn ein hadroddiad, mae cyfle i greu amgylchedd gwaith sy'n fwy ffafriol i iechyd a hapusrwydd."

Benjamin Gray, Uwch Ymchwilydd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, a arweiniodd yr astudiaeth.

Mae'r adroddiad a'i argymhellion wedi cael eu croesawu gan y Coleg Nyrsio Brenhinol a Choleg Brenhinol y Bydwragedd.

"Pan fydd staff wedi'u gorweithio ac o dan bwysau dwys, mae eu hiechyd corfforol a meddyliol yn dioddef ac mae hyn yn sicr yn effeithio ar eu gallu i weithio i'w lefel uchaf. Rydym hefyd yn gwybod, pan gaiff llesiant staff ei gefnogi, bydd cyfranogiad cyflogai'n cynyddu, ac mae lefelau cymhelliant a pherfformiad yn cynyddu hefyd. Mae Coleg Brenhinol y Bydwragedd yn croesawu'r adroddiad hwn ac yn gobeithio y daw'n gatalydd ar gyfer newid."

Helen Rogers, Cyfarwyddwr Cymru yng Ngholeg Brenhinol y Bydwragedd

## Archwilio cydnerthedd mewn nyrsio cyfoes

Mae canfyddiadau'r arolwg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn gysylltiedig ag astudiaeth PhD gyfredol a ariennir gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru: *Archwilio Cydnerthedd y Rolau Nyrsio Cyfoes yng Nghymru*.

Dan arweiniad yr Uwch Ddarlithydd Judith Benbow o Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Caerdydd, bydd y prosiect cydweithredol hwn ar raddfa fawr ac yn cyflwyno'i adroddiad yn 2021.

Mae'r astudiaeth yn defnyddio dulliau cymysg i ddisgrifio safbwyntiau 1,459 o nyrsys cofrestredig ledled y wlad (sy'n cwmpasu'r holl feysydd, bandiau cyflog, rolau a lleoliadau), ac mae'n archwilio'r cysyniad o gydnerthedd mewn nyrsio, yn enwedig ar lefel sefydliadol.

Mae'r gwaith eisoes yn cynnig dealltwriaeth newydd o'r dylanwadau sy'n llywio cydnerthedd nyrsys yng Nghymru o ran eu teimladau personol a'u profiadau yn y gweithle. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod cydnerthedd yn ddawn unigol a all amddiffyn nyrsys rhag stres galwedigaethol, a bod deall rôl y ffactorau cadarnhaol yn y gweithle yn allweddol i alluogi hynny. Y ddadl ganolog yng nghasgliadau'r ymchwil hon yw na ellir gwahanu profiadau nyrsys oddi wrth gydnerthedd a natur eu gweithleoedd. Mae'n ymwneud â mwy na nyrsys unigol – mae hefyd yn ymwneud ag ystyriaeth o amgylcheddau gwaith y nyrsys sef y mannau lle byddant yn profi newidiadau i'w cydnerthedd. Felly, mae angen ystyried y ddau.

Ar ôl ei gyhoeddi, y gobaith yw y bydd y gwaith hwn yn darparu dealltwriaeth o'r modd y gall cydnerthedd helpu i gymedroli'r stres sy'n deillio o'r adfyd a brofir gan nyrsys, ac y bydd hefyd yn darparu dealltwriaeth ddyfnach o'r ffactorau sydd eu hangen i feithrin lefelau priodol o gydnerthedd mewn lleoliadau gofal iechyd.

"Mae gen i ddiddordeb yn y modd y mae nyrsys yn datblygu strategaethau i'w helpu i ymdopi'n gadarnhaol â gofynion eu gwaith, a'r modd y gellir defnyddio hyn yn ehangach i leddfu stres a galluogi nyrsys i ddarparu gofal rhagorol i gleifion. Mae'r prosiect hwn wedi caniatáu i leisiau nyrsys sy'n gweithio yng Nghymru ddatgelu'r ffactorau sefydliadol cynnil hynny sy'n llywio'u cydnerthedd bob dydd".

Judith Benbow, Uwch Ddarlithydd, Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Caerdydd

## Dull parhaus o hyrwyddo llesiant

Mae cydnabod yr effaith emosiynol o ddarparu gofal nyrsio a bydwreigiaeth sy'n effeithiol, yn rhagorol, yn ddiogel ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi bod yn rhan allweddol o waith Tîm Nursing Now Cymru/Wales. Trwy'r ffrydiau gwaith a ddaeth ynghyd yn y rhaglen, edrychodd Tîm Nursing Now Cymru/Wales ar ffyrdd o lunio strategaethau a fyddai'n adeiladu cydnerthedd ac yn hyrwyddo llesiant yr holl ymarferwyr a myfyrwyr.

Cyfarfu'r Tîm Nursing Now Cymru/ Wales bob 8-12 wythnos a buont yn trafod yn rheolaidd y dasg o "adeiladu cydnerthedd a hyrwyddo llesiant" fel rhan o gynllun gwaith y rhaglen. Roedd hyn yn sicrhau bod trafodaethau'r Tîm yn rhoi ffocws clir ar faterion pwysig megis cydnerthedd, iechyd emosiynol a llesiant, sef eitemau a nodwyd mewn ymgynghoriad â nyrsys a bydwragedd ledled Cymru.

Mae canfyddiadau ac argymhellion y ddau ymchwiliad uchod wedi llywio gwaith ar hyd a lled Cymru i gynyddu llesiant a chydnerthedd dros y flwyddyn ddiwethaf, a byddant yn parhau i arwain ein gwaith cynllunio i'r dyfodol. Cydnabyddir bod angen ymateb ar nifer o wahanol lefelau i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd. Efallai y bydd angen buddsoddi mewn systemau, ond mae yna hefyd gamau y gall arweinwyr nyrsio a bydwreigiaeth eu hyrwyddo ar bob lefel.

At hynny, mae angen atebion byrdymor a hirdymor ar nifer o faterion. Er enghraifft, dangosodd Adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru fod dynion, nyrsys a bydwragedd iau, a'r rhai oedd yn waeth o ran eu hiechyd, yn cael eu heffeithio'n arbennig gan bwysau ariannol. Gall sicrhau mynediad cynnar at gyngor a chefnogaeth ariannol i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd, leddfu rhywfaint ar y pwysau yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae angen deall yr achosion sylfaenol a chynhyrchu atebion cefnogol ar y cyd â nyrsys a bydwragedd a'u cyrff proffesiynol.


Caiff astudiaeth iechyd a llesiant ddilynol ei gynnal yn 2021 er mwyn ymchwilio i effaith COVID-19 ar y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru.

"Mae llesiant staff iechyd a gofal cymdeithasol wrth wraidd strategaeth flaenllaw Llywodraeth Cymru sef 'Cymru Iachach', a gyda 2020 yn Flwyddyn y Nyrs a'r Fydwraig, mae hi bellach yn amser priodol i geisio gwella iechyd a llesiant y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru."

Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol, Iechyd Cyhoeddus Cymru



# Thema 2: Paratoi myfyrwyr a chefnogi nyrsys a bydwragedd i gydnabod eu rôl a'u cyfrifoldeb wrth gyfrannu at ddulliau ataliol gan wella deilliannau iechyd i unigolion a'r boblogaeth




## Iechyd gwell

Mae staff nyrsio yn gweithio ym mron pob cam a lleoliad sy'n ymwneud ag iechyd a gofal, ac o'r herwydd, mae ganddyn nhw rôl bwysig ar draws ystod eang o ymyriadau iechyd cyhoeddus. Maen nhw'n gweithio bob dydd gyda chleifion a'r cyhoedd i atal salwch, amddiffyn iechyd a hyrwyddo bywydau iach.

## Datblygu'r cwricwlwm ar gyfer nyrsio

Yn y ddogfen *Nyrs y Dyfodol: Safonau Hyfedredd ar gyfer Nyrsys Cofrestredig*,[4] mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (yr NMC) yn cydnabod bod rôl ataliol y nyrs yn hollbwysig. Mae "hybu iechyd ac atal afiechyd" yn un o'r saith platfform sy'n grwpio'r medrau a ddisgwylir gan staff nyrsio.

"Mae nyrsys cofrestredig yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wella a chynnal iechyd a llesiant meddyliol, corfforol ac ymddygiadol pobl, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau. Maent yn cefnogi ac yn galluogi pobl sydd ar bob cam o'u bywyd ac sydd ym mhob lleoliad gofal i wneud dewisiadau hyddysg ynghylch sut i reoli heriau iechyd er mwyn mwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl a gwella canlyniadau iechyd. Maent yn ymwneud â'r gwaith o atal clefyd a salwch a diogelu rhagddynt, ynghyd ag ymwneud ag agendâu iechyd y cyhoedd, datblygu cymunedol ac iechyd byd-eang, a lleihau anghydraddoldebau iechyd" (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2018: t10)

Mae ymgyrch Nursing Now Cymru/ Wales wedi gweld Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch (SAUau) ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm ar gyfer addysg nyrsio yng Nghymru yn cwrdd â medrau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth mewn perthynas â hybu iechyd ac atal afiechyd.

## Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif

At hynny, mae Nursing Now Cymru/Wales wedi canolbwyntio ar y dull addysgol a ymgorfforir yn Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (GBCG)[5] . Mae GBCB yn cefnogi gwell iechyd i'r cyhoedd trwy annog gweithwyr iechyd proffesiynol i ddefnyddio technegau newid ymddygiad wrth iddynt ryngweithio'n aml â'r cyhoedd bob dydd, gan gynorthwyo pobl i wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw.

Mae'r Tîm Nursing Now wedi ymgyrchu'n llwyddiannus i sicrhau bod y dull "Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif" yn cael ei gynnwys ym mhob rhaglen nyrsio a bydwreigiaeth a gynigir gan ddarparwyr addysgol ledled y wlad cyn y cofrestru. Mae partneriaid academaidd, gan gynnwys Prifysgolion Abertawe, Caerdydd, De Cymru, a Bangor, wedi cefnogi'r dasg o ddatblygu modiwl safonedig a seiliwyd ar sgiliau generig lefel 2 y dull "Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif". Mae modiwlau pwnc ychwanegol wedi'u datblygu hefyd, mewn cydweithrediad â'r Grŵp Cydweithio Cenedlaethol ar gyfer GBCG.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi trefnu hyfforddiant ar GBCG i academyddion prifysgol er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd wrth ddarparu hyfforddiant ar ei gyfer mewn rhaglenni cyn-gofrestru, ôl-gofrestru ac ôl-raddedig ar draws SAUau yng Nghymru.

Mae pecyn e-ddysgu hefyd wedi'i gynhyrchu ac yn cael ei hyrwyddo'n weithredol gan SAUau. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru sef comisiynwyr addysg iechyd y wlad, wedi cefnogi mentrau GBCG.

"Mae'r dull hwn wedi annog cysondeb yn y negeseuon sy'n hybu iechyd. Mae hefyd wedi sicrhau bod pob rhaglen sy'n paratoi nyrsys a bydwragedd ar gyfer eu cofrestru yn cynnwys elfennau pwysig sy'n ymwneud â thystiolaeth gyfredol sylfaenol ac yn tanategu dulliau ymarfer."

Yr Athro Dianne Watkins, Prifysgol Caerdydd

Mae Coleg Brenhinol Nyrsio Cymru wedi lledaenu gwybodaeth am GBCG i'w holl aelodau ac wedi'i chynnwys ar ei wefan. Mae hyn yn caniatáu mynediad i addysg GBCG ar gyfer yr holl nyrsys dan hyfforddiant a'r holl nyrsys cymwys sy'n aelodau o'r Coleg Nyrsio Brenhinol.


## Ysgoloriaethau/Cymrodoriaethau Nightingale yng Ngogledd Cymru

Dyfarnwyd tair Ysgoloriaeth/Cymrodoriaeth Nightingale i staff ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r cymrodyr yn gweithio ar ystod o brosiectau er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- Pa mor bosibl a gwerthfawr fyddai sefydlu gwasanaeth "fflach" ar gyfer "rhagnodi cymdeithasol" ar draws cefn gwlad Gogledd Cymru?
- Pa mor hyderus yw nyrsys ynghylch darparu gofal i gymunedau LHDTC, ac yn benodol, pobl drawsryweddol? Pa hyfforddiant sydd ar gael a beth sy'n ofynnol?
- A yw'r hyfforddiant presennol ar arweinyddiaeth i nyrsys newydd gymhwyso, yn ddigonol i'w paratoi ar gyfer ymarfer?



# Thema 3: Mynd ati'n weithredol i annog a chynyddu amrywiaeth mewn nyrsio a bydwreigiaeth, er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a hyrwyddo datblygiadau cymdeithasol ac economaidd




## Economïau Cryfach  Mwy o Gydraddoldeb Rhwng y Rhywiau

Mae datblygu gweithlu amrywiol ar draws sectorau a lleoliadau gofal yng Nghymru yn hynod bwysig. Rydyn ni am i'n gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru, oherwydd rydyn ni'n gwybod bod amrywiaeth a chynhwysiant yn arwain at welliant o ran iechyd i bawb ac o ran profiadau'r staff a'r cleifion.

Mae hefyd yn bwysig bod y grwpiau hynny sydd wedi'u tangynrychioli (fel menywod, pobl ag anableddau, pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol a phobl LHDT) yn gallu gwireddu'u potensial mewn rolau arwain a rheoli. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r timau uwch o fewn sefydliadau'r GIG yn cynnwys cynrychiolaeth ddigonol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a'r staff y maent yn eu harwain.

Yn ystod ymgyrch Nursing Now, rydyn ni wedi cefnogi ac annog ystod o waith i hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth o fewn nyrsio. Mae'r ffordd y mae pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw at anghydraddoldebau presennol yn ein cymdeithas wedi gwneud hyn yn arbennig o bwysig, ynghyd â datblygiad y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys a chyflwyniad Hanes Pobl Dduon Cymru 365[6].

## Cefnogi a datblygu nyrsys o gymunedau ethnig lleiafrifol

Gofynnwyd i Gyfarwyddwyr Nyrsio roi ystyriaeth i  amrywiaeth o fewn eu gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth. Cyhoeddodd y Prif Swyddog Nyrsio lythyr ym mis Hydref 2020 at Gyfarwyddwyr Nyrsio pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd, yn annog iddynt weithredu yn y maes hwn ac yn gofyn iddynt nodi'r modd y maen nhw'n cefnogi datblygiad staff nyrsio a bydwreigiaeth sy'n perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol.

Roedd hyn yn dangos ehangder y gwaith sydd eisoes yn digwydd ledled Cymru, a'r modd y gellir rhannu arferion da ac arloesedd yn y maes hwn. Mae'n amlwg fod pob sefydliad yn cydnabod bod pawb yn gyfrifol am amrywiaeth yn y gweithlu a bod amrywiaeth ar lefel arweinyddol yn cyfoethogi ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth a'u gweithrediadau.

Enghreifftiau o waith ar y gweill ledled Cymru:

- Mae tri bwrdd iechyd yn cymryd rhan mewn cynlluniau "mentora o chwith" ac mae Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar fin lansio'i gynllun ei hun.
- Mae fforymau grwpiau sy'n cynnig cymorth i leiafrifoedd ethnig yn bodoli neu'n cael eu sefydlu ar draws yr holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd.
- Mae sefydliadau'r GIG yn cael eu hannog i ymgysylltu'n weithredol â'r nodau, yr amcanion a'r camau a amlinellir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020-2024 .
- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflwyno tystiolaeth i Diverse Cymru sy'n cynnal asesiad gan ddefnyddio "Offeryn Cynhwysiant Hil".
- Rhoddwyd gwybodaeth i Gyfarwyddwyr Nyrsio am gyfle i ddatblygu arweinyddiaeth gyda The King's Fund, a gofynnwyd iddynt enwebu staff o grwpiau ethnig lleiafrifol i gymryd rhan.

"Rydyn ni'n ymdrechu i gynyddu amrywiaeth y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru, wrth inni hefyd gefnogi nyrsys a bydwragedd ein gweithlu presennol sy'n nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd neu'n perthyn i leiafrifoedd ethnig eraill, er mwyn iddynt ddatblygu yn eu rolau a phrofi gyrfaoedd cadarnhaol yn ein sectorau iechyd a gofal yng Nghymru."

Richard Desir, Cyfarwyddwr Nyrsio Clinigol ar gyfer Gofal Sylfaenol, Canolradd a Chymunedol

## Dylanwadu ar waith y llywodraeth ynghylch gweithredu cydraddoldeb

Mae'r Tîm Nursing Now, trwy weithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Nyrsio, hefyd wedi arwain ar ystod o weithgareddau eraill yn y maes hwn. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at Grŵp Cynghorol BAME y Prif Weinidog ar COVID-19, a chefnogi datblygiad a gweithrediad Offeryn Asesu Risg Gweithlu Cymru, a gyflwynwyd ar y dechrau mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Bellach, mae'r Tîm hefyd yn cael ei gynrychioli yng Ngweithgor y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

### Pennod podlediad ar amrywiaeth mewn nyrsio

Mewn pennod o Nurses & Midwives Talk, cyfwelodd Dr Ruth Oshikanlu MBE â Richard Desir, Cyfarwyddwr Nyrsio Clinigol ar gyfer Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro[8]. Siaradodd y ddau am effaith COVID-19 ar nyrsio, a'r modd y mae wedi datgelu anghydraddoldebau presennol yn y gweithlu, yr angen i ehangu amrywiaeth o ran rhywedd ac ethnigrwydd mewn nyrsio, yn ogystal â ffrydiau gwaith Nursing Now Cymru/Wales yn y maes hwn. Mae Richard hefyd yn siarad am ei ran yntau yn natblygiad Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru.

### Hyrwyddo Mis Hanes Pobl Dduon

Cefnogodd Nursing Now Cymru/Wales ystod o weithgareddau o amgylch Mis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref 2020, gan gynnwys cymryd rhan mewn gweminarau, cyfweliadau, podlediadau a chyflwyniadau. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi sesiwn gweminar a gynhaliwyd gan yr RCN o'r enw *A yw Gofal Nyrsio yn Lliwddall? Gwersi o Gymru 2020: un o ddigwyddiadau Mis Hanes Pobl Dduon RCN Cymru*. Dyma oedd y cyntaf yn y gyfres a rhoddodd y weminar hon drosolwg inni o waith Nursing Now Cymru/Wales a Grŵp Cynghorol BAME y Prif Weinidog.

### Y Gynhadledd "Beyond the Bump"

Yn dilyn datblygiad byd-eang yr ymgyrch #BlackLivesMatter (Mae Bywydau Du o Bwys) yn ystod 2020, daeth grŵp deinamig o fyfyrwyr bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd ynghyd i ofyn am fwy o addysg ar faterion yn ymwneud â thegwch, hawliau dynol a hiliaeth, gan nodi'n benodol eu perthnasedd i ofal mamolaeth. Roedd hyn hefyd yn dilyn Ymchwiliad Cyfrinachol MBRRACE-UK i Farwolaethau Mamau[9] a gyhoeddwyd yn 2020, ac a amlygodd fod menywod duon yn y DU bum gwaith yn fwy tebygol o farw wrth eni plentyn.

Gyda chefnogaeth y Brifysgol a Choleg Brenhinol y Bydwragedd, aeth y grŵp hwn o fyfyrwyr ymlaen i drefnu cynhadledd i dynnu sylw at hiliaeth, annhegwch a rhagfarn ddiarwybod mewn gwasanaethau mamolaeth. Yn dwyn y teitl *Beyond the bump: how ethnic minority families are failed by maternity services* cynhaliwyd y gynhadledd rithwir ym mis Tachwedd 2020 gyda 450 o gynrychiolwyr o bob rhan o'r DU a gwledydd eraill.

"Roedd yr holl siaradwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac er bod eu treiddgarwch a'u gonestrwydd yn anghyfforddus, roedd angen eu clywed. Fe wnaethant herio'r gynulleidfa i wrando, ac i wneud rhywbeth ynghylch yr hiliaeth, yr annhegwch a'r rhagfarn ddiarwybod sy'n bodoli ym maes gofal iechyd a'r gymdeithas gyfan."

Grace Thomas, Bydwraig Arweiniol dros Addysg, Prifysgol Caerdydd

## Archwilio mynediad i hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff o leiafrifoedd ethnig

Mae Gweithgor Nursing Now Cymru/Wales wedi'i sefydlu i gynnal archwiliad o nyrsys sy'n perthyn i leiafrifoedd ethnig ac sy'n gweithio ar bob lefel ledled GIG Cymru. Bydd hyn yn cynnwys yr holl nyrsys a bydwragedd cofrestredig ym mandiau 5-9 sy'n gweithio ar draws GIG Cymru, ac fe'u dadansoddir yn ôl sectorau gofal: gofal sylfaenol, gofal eilaidd, a'r Gwasanaeth Ambiwlans.

Bydd yr archwiliad yn asesu'r ffordd y mae'r nyrsys hyn yn cyrchu hyfforddiant a datblygiad gyrfa, trwy edrych ar adolygiadau o berfformiad unigol ynghyd â gwybodaeth o'r cynlluniau datblygu a restrwyd ar Gofnod Staff Electronig y GIG. Bydd yr archwiliad cychwynnol yn ymdrin â 2019 (gyda 2020 wedi'i eithrio o'r ciplun hwn oherwydd effaith eithriadol COVID-19). Fe'i cyhoeddwyd yng ngwanwyn 2021, a bydd yn darparu data sylfaenol i lywio archwiliadau, dadansoddiadau a chynlluniau gweithredu pellach.

## Recriwtio myfyrwyr nyrsio o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli

Mae pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn canolbwyntio ar Siarter Athena Swan, sef fframwaith a ddefnyddir ledled y byd i gefnogi a thrawsnewid cydraddoldeb rhwng y rhywiau o fewn addysg uwch a gwaith ymchwil. Mae Prifysgol Abertawe wedi ennill Gwobr Arian yr Athena Swan ac mae Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Bangor ill dau wedi ennill Gwobrau Efydd.

Mae Prifysgol Abertawe wedi ymdrechu'n ddyfal i ehangu amrywiaeth y bobl sy'n hyfforddi i fod yn nyrs neu'n fydwraig yn y brifysgol. Mae'n rhannu fideos hyrwyddol ar ei gwefannau sy'n dangos myfyrwyr nyrsio o wahanol ryweddau a chefndiroedd, ac yn cymell gyrfaoedd nyrsio yn yr ysgolion lleol trwy drefnu anerchiadau gan aelodau staff a myfyrwyr nyrsio gwrywaidd. Fel cyflogwr, mae'n sicrhau bod yr holl ddeunyddiau marchnata yn adlewyrchu amrywiaeth a chynwysoldeb ac mae'n defnyddio datganiadau am gamau gweithredu cadarnhaol i recriwtio grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Mae menter ddiweddaraf y Brifysgol sy'n ymwneud ag Athena Swan yn cynnwys cefnogi myfyrwyr sy'n ofalwyr, gan roi mynediad iddynt i ystod o adnoddau digidol trwy aelodaeth o Carers UK a Chyflogwyr i Ofalwyr Cymru.

## Cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru yr RCN

"Mae gweithgareddau Athena Swan yn ceisio sicrhau bod y proffesiwn nyrsio yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth y mae nyrsys yn ei gwasanaethu, gan ddatblygu amgylchedd dysgu a gwaith cynhwysol lle gall pawb gyflawni'u potensial llawn."

Yr Athro Joy Merrell, Prifysgol Abertawe


Yn 2017, cydweithiodd y Coleg Nyrsio Brenhinol (yr RCN) â'i Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru i ddatblygu rhaglen gyffrous a fyddai'n cynnig cyflwyniad i nyrsio ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed fel gyrfa bosibl. Mae'r Cynllun Cadetiaid Nyrsio yn cyflwyno cadetiaid i yrfaoedd posib ym maes nyrsio, gan redeg ochr yn ochr â'u gweithgareddau arferol mewn lifrai. Ar ôl iddynt gwblhau eu tystysgrif, cefnogir cadetiaid i ystyried y camau nesaf, a all gynnwys diploma cysylltiedig, gradd sylfaen neu radd nyrsio israddedig.

Arweiniodd RCN Cymru ar beilot gwreiddiol y cynllun, gan ddod â Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol a sefydliadau addysg eraill ynghyd. Lansiwyd y cynllun yn llwyddiannus yn 2019 ac aeth o nerth i nerth wrth iddo gael ei gyflwyno fesul cam ar draws y DU.

*"Mae hi wedi bod yn wych gweld canlyniadau o'r cynllun yn dechrau hyrwyddo gwell cydraddoldeb rhwng y rhywiau o fewn y maes nyrsio. Mae cadét gwrywaidd o'r garfan gyntaf o gadetiaid newydd wedi ennill lle i astudio nyrsio iechyd meddwl ym Mhrifysgol Caerdydd. Credwn yn gryf y gallai gwledydd eraill ledled y byd fabwysiadu'r model hwn i'w helpu i gwrdd â'r prinder nyrsys."*

Diane Powles, Cyfarwyddwr Cyswllt - Polisi Nyrsio ac Ymarfer Proffesiynol, RCN Cymru

# Thema 4: Cryfhau a meithrin arweinyddiaeth a dylanwadu ar allu ar bob lefel




**Iechyd Gwell Economïau Cryfach Mwy o Gydraddoldeb Rhwng y Rhywiau**

Mae arweinyddiaeth dda mewn lleoliadau gofal iechyd yn gysylltiedig â gofal o ansawdd uchel, boddhad o ran y cleifion, a gwell llesiant a morâl ymysg y staff. Mae hyrwyddo arweinyddiaeth ym maes nyrsio ar bob lefel wedi bod yn rhan allweddol o waith yr Ymgyrch Nursing Now yng Nghymru. Mae'n cydymffurfio â gweledigaeth y ddogfen *Cymru Iachach* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018, a'r strategaeth gweithlu ddilynol. Rydyn ni hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid mewn gwledydd eraill i ledaenu arferion da a hyrwyddo'r dasg o ddatblygu arweinyddiaeth nyrsio mewn systemau iechyd sy'n llai datblygedig na'n rhai ni.

**Creu Cymru Iachach**

*Cyhoeddwyd Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*[11] yn 2018. Mae'n gosod gweledigaeth hirdymor sy'n cynnwys "trefn system gyfan ar gyfer ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol" yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac ar atal salwch. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad cryf i gryfhau arweinyddiaeth a chyfeiriad cenedlaethol yng Nghymru.

Gan adeiladu ar yr ymrwymiad hwn, lansiwyd strategaeth gweithlu 10 mlynedd ym mis Hydref 2020 gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae *Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*[12] yn dangos fel y mae'r gweithlu iechyd a gofal yn allweddol i wireddu'r weledigaeth a amlinellir yn Cymru Iachach. Mae'n darparu fframwaith strategol ar lefel uchel, ac mae hynny'n arwydd o'n huchelgais i werthfawrogi a chefnogi ein gweithlu, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys a'u cymell trwy arweinyddiaeth ystyriol ymhob rhan o'n system. Byddwn hefyd yn eu grymuso i ddatblygu'u sgiliau a'u hystwythder fel y gallant ymateb yn gyflym i heriau a chyfleoedd y dyfodol.

Y cynllun yng Nghymru yw "meithrin diwylliant o arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol a fydd yn denu, yn cefnogi ac yn datblygu'n barhaus weithlu hyblyg sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cael eu gwerthfawrogi, gan system iechyd a gofal cymdeithasol modern a chynhwysol." (t.3)

## Cefnogaeth genedlaethol i ddatblygu talent arweinyddol ym maes nyrsio yng Nghymru

Mae'r Prif Swyddog Nyrsio yn ogystal â Chyfarwyddwyr Nyrsio ledled Cymru, yn cydnabod yr angen am arweinyddiaeth glinigol gref ac yn gweithio i ddatblygu dull mwy cyson o feithrin talent arweinyddol ym maes nyrsio Cymru. Mae hyn wedi cynnwys archwilio'r llu o gyfleoedd arwain a datblygu sy'n bodoli ar hyn o bryd ar draws byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru.

Daeth y gwaith hwn i ben gyda'r Prif Swyddog Nyrsio yn cefnogi nifer o gyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth bwrpasol ym maes nyrsio a bydwreigiaeth drwy gydol yr ymgyrch a drefnwyd gan Nursing Now.

Dyma rai enghreifftiau o'r mentrau a gefnogir:

- Y cwrs "Deall a Dylanwadu ar Bolisi Iechyd" mewn cydweithrediad â'r RCN sy'n ehangu gwybodaeth am y modd y caiff polisi iechyd ei lunio'n wleidyddol yng Nghymru ac yn annog cyfranogwyr i ymgysylltu â'r broses datblygu polisi.

- Rhaglen Academi Arweinyddiaeth Abertawe.
- Ysgoloriaethau arweinyddiaeth Sefydliad Florence Nightingale: cefnogwyd cyfleoedd yn y maes digidol ac uwch-arweinyddiaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn ymrwymo i noddi pedwar lle arall bob blwyddyn dros y tair blynedd nesaf.
- Rhaglenni datblygu arweinyddiaeth ym maes bydwreigiaeth, mewn cydweithrediad â'r RCN.
- Rhaglen sy'n Cynnig Profiad o Uwch Arweinyddiaeth mewn cydweithrediad ag Academi Cymru. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys treulio peth amser o fewn Llywodraeth Cymru yn cwrdd ag arweinwyr polisi ac yn cysgodi uwch arweinwyr, er mwyn cefnogi uwch arweinwyr nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru i ymgymryd â swyddi ar lefel dirprwy a chyfarwyddwr.
- Datblygu'r rhaglen "Arwain Polisi i Lunio Gofal" ar gyfer nyrsys a bydwragedd sy'n nodi'u bod o leiafrif ethnig – fe gaiff ei lansio yn 2021.

Mae gan AaGIC rôl arweiniol wrth gyflawni'r prosiectau hyn, fel rhan o'r gwaith i ddatblygu agenda cenedlaethol ar gyfer arweinyddiaeth y gweithlu. Mae hefyd wrthi'n creu sawl rhaglen newydd arall, gan gynnwys rhaglen arweinyddiaeth glinigol amlddisgyblaethol (a lansiwyd yn hydref 2021) a rhaglen i ddarpar weithredwyr arweiniol (a lansiwyd yn haf 2021).

At hynny, datblygwyd ystod o rwydweithiau arweinyddiaeth, gweminarau a dosbarthiadau meistr newydd, ochr yn ochr â Gwella, sef porth arweinyddiaeth newydd ar gyfer staff GIG Cymru: https://nhswalesleadershipportal.heiw.wales/

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd arwain, ewch i Gwella, cysylltwch ag arweinwyr gweithlu o fewn sefydliadau, neu ymwelwch â gwefan AaGIC: https://heiw.nhs.wales/programmes/leadership/

## Academi Arweinyddiaeth Myfyrwyr Prifysgol Abertawe

Sefydlwyd Academi Arweinyddiaeth Myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn 2019, gan adeiladu ar lwyddiant "#150Leaders", rhaglen arweinyddiaeth i fyfyrwyr y DU a ddatblygwyd gan Gyngor y Deoniaid Iechyd ac Ymddiriedolaeth Nyrsio Burdett.

Mae rhaglen arweinyddiaeth ryngbroffesiynol Abertawe yn cefnogi myfyrwyr i ddatblygu a chymhwyso rhinweddau arweinyddiaeth yn eu cyd-destun personol, proffesiynol a sefydliadol eu hunain, gyda pherthnasedd uniongyrchol i gyflogwyr y dyfodol.

Mae'r rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar sawl lefel, gyda 95% o fyfyrwyr yn y garfan gyntaf yn dweud bod eu profiad cyffredinol ym Mhrifysgol Abertawe wedi gwella trwy gymryd rhan yn y rhaglen. Dyma rai o'r buddion a grybwyllwyd gan fyfyrwyr: y cyfle i rwydweithio a meithrin perthnasoedd ar draws disgyblaethau, y gefnogaeth a gawsant gan gymheiriaid, y cyfle i gwrdd a dysgu oddi wrth gyflogwyr ysbrydoledig ac arbenigwyr ym maes arweinyddiaeth, a'r cyfle i wella hunanhyder a chyflogadwyedd.

Ar raddfa ehangach, rhannwyd manylion am gynnwys a chyflwyniad y rhaglen gyda sawl prifysgol wrth iddynt ddatblygu eu hacademïau eu hunain yn seiliedig ar fodel Prifysgol Abertawe. At hynny, llwyddodd yr Academi Arweinyddiaeth Myfyrwyr i gyrraedd y rownd derfynol yng Nghategori y Profiad Myfyrwyr Gorau yng Ngwobrau Myfyrwyr y Nursing Times 2020.

"Rydyn ni'n clywed, dro ar ôl tro, fod nyrsys yn cael eu dal yn ôl fel arweinwyr. Mae angen inni achub ar y cyfle a ddaw yn 2020 i lunio dyfodol gwahanol ar gyfer ein proffesiwn trwy fuddsoddi yn y genhedlaeth nesaf. Mae ymgymryd â Her Nightingale yn ennyn eu sgiliau, eu profiadau ac yn rhoi hyder newydd iddyn nhw - gyda'n gilydd, gallwn ni ddileu'r rhwystrau sy'n dal nyrsys yn ôl a gweld ein proffesiwn yn esgyn i'r entrychion."

Annette Kennedy, Llywydd Cyngor Rhyngwladol y Nyrsys

## Her Nightingale

Datblygwyd Her Nightingale gan yr ymgyrch fyd-eang Nursing Now ac fe'i lansiwyd yn 2019. Gofynnwyd i bob cyflogwr iechyd ledled y byd ddarparu hyfforddiant ar arwain a datblygu ar gyfer grŵp o nyrsys a bydwragedd ifainc yn ystod 2020 sef Blwyddyn y Nyrs a'r Fydwraig.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd un o'r sefydliadau cyntaf yn y byd a'r cyntaf yng Nghymru i ymgymryd â Her Nightingale. Fe greodd raglen arweinyddiaeth a luniwyd yn benodol ar gyfer arweinwyr y dyfodol a'i chyflwyno i garfan o nyrsys oedd newydd gofrestru mewn amrywiaeth eang o ddisgyblaethau.

Roedd y rhaglen yn darparu sesiynau a addysgir, cyfleoedd i gysgodi arweinwyr presennol, a nifer o gyflwyniadau gan uwch nyrsys, gan gynnwys nyrsys ymgynghorol a chyfarwyddwyr nyrsio, er mwyn deall eu gyrfa ym maes arweinyddiaeth. Daeth y rhaglen i ben ym mis Tachwedd 2020 gyda'r cyfranogwyr yn myfyrio ynghylch yr hyn roeddent wedi'i ennill o gymryd rhan. Roedd llawer eisoes wedi symud i swyddi uwch, ac roedd rhai wedi llwyddo i reoli'r heriau a ddaeth i'w rhan gyda'r hyn a wnaethon nhw ddysgu ar y cwrs a gyda chefnogaeth eu cyfoedion a thiwtoriaid. Nododd pob un fod hyn yn brofiad cadarnhaol.

## Ymrwymiad i bwysigrwydd nyrsio mewn ardaloedd gwledig ar draws y byd

Saif WONCA am Sefydliad y Byd ar gyfer Colegau Cenedlaethol, Academïau a Chymdeithasau Academaidd y Meddygon Teulu. Mae WONCA Gwledig yn rhwydwaith gweithredol a deinamig o feddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithredu yng nghefn gwlad ymhob cwr o'r byd, ac mae'n cynnwys aelodau o Gymru.

Er mwyn cyfrannu at ymgyrch fyd-eang Nursing Now i rymuso nyrsys a mynd i'r afael â heriau iechyd a sicrhau gofal iechyd i bawb, cynhaliwyd dau weithdy i "arweinwyr agweddau" yn y 16eg Cynhadledd Iechyd Gwledig y Byd WONCA yn Albuquerque ym mis Hydref 2019. Roedd y gweithdai hyn yn gyfle i archwilio pa gamau a allai helpu i ddatblygu a chryfhau rôl a llais arweinwyr nyrsio a bydwreigiaeth yn y sector gwledig ledled y byd. Ar ddiwedd y gynhadledd, cytunodd cynrychiolwyr ac aelodau'r cyngor yn unfrydol ar ddatganiad i gadarnhau'u hymrwymiad i bwysigrwydd nyrsio mewn gofal iechyd gwledig ac i Nursing Now 2020.

Dyma'u haddewid:

- cefnogi llais y nyrsys a'r bydwragedd mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, trwy eu gwahodd i gymryd rhan mewn penderfyniadau ac arweinyddiaeth
- hyrwyddo partneriaethau trwy gefnogi'r angen am gyfranogiad teg
- rhoi pwys ar gyffredinoliaeth mewn hyfforddiant ac ymarfer nyrsys
- hyrwyddo cydweithrediad wrth adolygu mandad WONCA Gwledig er mwyn annog cynhwysiant pellach ym maes nyrsio a bydwreigiaeth
- ymgorffori gwaith ymchwil a data i ddangos gwell dealltwriaeth o werth nyrsio a bydwreigiaeth mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, ac o'r gofal a ddarperir dan arweiniad nyrsys a bydwragedd
- hyrwyddo cwmpas llawn o ymarferion nyrsio cyffredinol yng nghefn gwlad
- cefnogi gofal integredig gan dîm sy'n canolbwyntio ar y claf a'r teulu ac sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymunedol.

Mae'r datganiad yn rhoi nyrsio ar flaen y gad ym maes gofal iechyd gwledig a dangosir hyn trwy rifyn arbennig ar Iechyd Cefn Gwlad yn y Journal of Research in Nursing, a gyd-olygwyd gan yr Athro Joyce Kenkre o Brifysgol De Cymru sydd hefyd yn aelod o Gyngor WONCA Gwledig.

Bu oedi cyn bwrw ymlaen â'r fenter hon oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, cynhelir cyfarfod byd-eang yn fuan i drafod y modd y gellir troi'r addewidion a wnaed yn Natganiad Albuquerque yn gamau ymarferol i symud y fenter ymlaen.

## Hyrwyddo arweinyddiaeth nyrsio yn Affrica

Am fwy na degawd, mae'r Rhaglen Cymru ac Affrica wedi cefnogi pobl i chwarae rhan fwy gweithredol mewn datblygiadau rhyngwladol trwy weithio a chydweithio ag unigolion, cymunedau, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus - gan gynnwys GIG Cymru.

Mae'r rhaglen yn anelu at fynd i'r afael â thlodi byd-eang a helpu i gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae hynny wedi golygu bod Cymru wedi arwain ar sawl prosiect i hyrwyddo arweinyddiaeth ym maes nyrsio yn Affrica Is-Sahara. Cyflawnwyd hyn trwy gymysgedd o gyfleoedd dysgu rhyngwladol, lle mae cyfranogwyr yn dysgu sgiliau newydd wrth weithio ar lawr gwlad gyda sefydliadau yn Affrica, a chafwyd cynllun grant i ariannu rhai o brosiectau bychain y Rhaglen Cymru ac Affrica.

### Cyfeillio â nyrsys yn Namibia

Gweithiodd Prifysgol Caerdydd mewn cydweithrediad â Phrifysgol Namibia i sefydlu system gyfeillio rhwng myfyrwyr nyrsio yn y ddwy wlad. Roedd hyn yn meithrin dealltwriaeth o nyrsio yn Namibia a Chymru ac yn rhoi cyfle i drin a thrafod ystyr arweinyddiaeth a'r modd y gellir ei datblygu wrth astudio nyrsio. Mae adborth gan fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r rhaglen, yn dangos effaith gadarnhaol gref.

At hynny, sefydlwyd trefn gyfeillio rhwng nyrsys cymwys yn Namibia a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) er mwyn cyfnewid profiad a diwylliant tebyg rhwng y rhai sydd eisoes yn gweithio ym maes nyrsio.

Cynhyrchwyd ffilmiau yn portreadu "diwrnod ym mywyd nyrs mewn amrywiol arbenigeddau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan" i roi dealltwriaeth i nyrsys yn Namibia o nyrsio yng Nghymru. Cynhaliwyd gweithdai hefyd ar gyfer arweinwyr nyrsio yn Namibia gan staff o Brifysgol Caerdydd, gan ymdrin â phynciau megis Methodoleg Gwella Ansawdd ac Arweinyddiaeth Dosturiol.

"Rwy'i wedi ennill mwy o brofiad ym maes arweinyddiaeth yn gyffredinol, gan gynnwys nodweddion arweinydd da a sgiliau arwain. Rwy'i hefyd wedi dysgu am ddiwylliant pobl. Y rhan anhygoel oedd dysgu am nyrsio yn y DU. Pwy a ŵyr, efallai rhyw ddydd y bydda i'n nyrs yn y DU!"

Myfyriwr nyrsio o Namibia

"Roedd rhyngweithio â myfyrwyr nyrsio eraill yn y DU yn un o adegau gorau fy mywyd."

Myfyriwr nyrsio o Namibia

### Sefydlu Uned Datblygu Ymarfer ym Malawi

Mae gan Brifysgol Caerdydd hefyd brosiect gyda Phrifysgol Malawi, lle gwnaethon nhw sefydlu "Uned Datblygu Ymarfer" ar ward feddygol mewn ysbyty.

Nod yr uned yw datblygu ymarferwyr a gwella arferion trwy ymgysylltu'n weithredol ag addysg ac ymchwil a seiliwyd ar dystiolaeth, gan ddefnyddio dulliau gwella ansawdd. Mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r gwaith hwn yn ymwneud â hyrwyddo gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gweithio mewn modd aml-broffesiynol, trawsnewid diwylliant yn y gweithle, a dysgu a datblygu mewn ffordd weithredol.

"Mae'r uned yn canolbwyntio ar wella glendid wardiau, derbyn a rhyddhau cleifion â diabetes ar sail tystiolaeth, a gwella gwaith amlddisgyblaethol trwy ymweld â wardiau mewn modd effeithiol ac effeithlon. Rydyn ni bellach wedi sicrhau Grant Ymchwil Her Fyd-eang i'n galluogi i werthuso effaith y prosiect yn drylwyr."

Yr Athro Dianne Watkins OBE, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gofal Iechyd, Prifysgol Caerdydd

### Rhaglen datblygu arweinyddiaeth yn Ghana

Yn 2020, dechreuodd y Prif Swyddog Nyrsio a Llywodraeth Cymru weithio gyda Swyddfa'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yng Ngwasanaeth Iechyd Ghana i gynllunio rhaglen datblygu arweinyddiaeth a'i theilwra'n arbennig ar gyfer 20 o nyrsys profiadol o Ghana.

Y nod oedd hwyluso'r dasg o ddatblygu arweinwyr nyrsio yn Ghana i'r dyfodol, gan helpu'r cyfranogwyr i:

- ddeall nodweddion arweinyddiaeth effeithiol a'r modd y mae hynny'n sail i'w rôl
- datblygu sgiliau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y rhai o'u cwmpas gan gynnwys cydweithwyr, rheolwyr a'r timau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach
- dysgu adnabod a herio'r rhwystrau hynny sy'n effeithio ar ddiogelwch y gofal a ddarperir
- datblygu strategaethau i gynyddu cydnerthedd a chynnal momentwm ar adegau o newid.

Bwriad Llywodraeth Cymru oedd comisiynu'r rhaglen hon a'i gweithredu yn Ghana gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru ym mis Mawrth 2020. Yn anffodus, oherwydd effaith pandemig COVID-19, roedd yn rhaid gohirio'r cynlluniau hyn.

Mae cydweithwyr o Gymru wedi parhau i ymgysylltu â thîm Ghana. Er nad yw hyfforddiant yn y wlad yn bosibl eto, maent yn edrych ar gyfleoedd i ddysgu mewn modd rhithwir.



### Archwilio anghenion datblygu arweinyddiaeth yn Wganda

Bydd y prosiect hwn yn parhau am flwyddyn ac fe'i hariannwyd gan grant bach a roddwyd gan Gynllun Grant Cymru ac Affrica a Heb Ffin (sefydliad anllywodraethol Cymreig). Ymchwiliodd y prosiect i'r hyn oedd ei angen i ddatblygu arweinyddiaeth y nyrsys a'r bydwragedd yn Wganda, gan argymell camau i ddatblygu'r mater ymhellach.




O'r chwith i'r dde: Catherine Odeke (Cadeirydd, Nursing Now Wganda), Dr Ruth Davis (Cymrawd Gwadd, Prifysgol De Cymru), yr Athro Julia Downing (Cadeirydd Gwadd, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Makerere) a'r Prif Nyrs Petua (Comisiynydd Nyrsio Dros Dro).

Yn dilyn adolygiad manwl o lenyddiaeth a dogfennau cyhoeddedig (yn ymwneud â nyrsio a bydwreigiaeth yn Wganda ac argaeledd hyfforddiant a datblygiad ar gyfer arweinyddiaeth), gofynnwyd am farn nyrsys a bydwragedd sy'n ymarfer yn Wganda a thrafodwyd y mater gan naw grŵp ffocws. Fe'u cynhaliwyd ar hyd a lled y wlad ac roeddynt yn cynnwys nyrsys a bydwragedd ar bob lefel o'u gyrfa ac mewn lleoliadau a sefydliadau amrywiol. Cymerwyd rhan gan 117 o nyrsys a bydwragedd (93 o fenywod, 24 o ddynion).

Ar sail y canfyddiadau, lluniwyd Fframwaith Lefel Cymhwysedd a gwnaed argymhellion allweddol ar gyfer gwaith datblygu. Roedd cynllun gwreiddiol y prosiect yn cynnwys adborth wyneb yn wyneb a thrafodaeth ynghylch canlyniadau'r prosiect gyda rhanddeiliaid yn Wganda. At hynny, fe ragwelwyd y byddai'r Fframwaith yn cael ei ddatblygu yng nghyfarfod y rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau ei berchnogaeth, ei addasrwydd a'i ymarferoldeb. Unwaith eto, fodd bynnag, ni fu hyn yn bosibl wrth i bandemig COVID-19 daro'r byd. Gofynnwyd i randdeiliaid allweddol o Wganda am adborth ar ffurf e-bost, ac mae cynlluniau ar waith i barhau â'r drafodaeth trwy gyfrwng rhith a thrwy gwrdd pan fo hynny'n bosibl.

Bellach, fe geisir cyllid i gefnogi Wganda fel y gellir bwrw ymlaen ag argymhellion y prosiect hwn.

### Cymorth mentora yn Lesotho

Mae gan Brifysgol Bangor gysylltiadau â'r Coleg Hyfforddi Iechyd Cenedlaethol (yr NHTC) yn Lesotho, lle mae'n darparu cefnogaeth fentora ac yn helpu i weithredu Fframwaith Mentora. Mae hyn yn canolbwyntio ar bartneriaeth rhwng staff academaidd yr NHTC a'r Ysgol Gwyddorau Iechyd ym Mhrifysgol Bangor, ac maent yn darparu cefnogaeth i'w gilydd.

# Thema 5: Cynyddu a gwella'r dasg o ledaenu arferion nyrsio effeithiol ac arloesol er mwyn ysgogi cysondeb o ran eu mabwysiadu ar draws y system

Iechyd Gwell

## Iechyd Gwell

"Mae gwella ansawdd yn ymwneud â gofal iechyd sy'n ddiogel, yn effeithiol, yn canolbwyntio ar y claf, yn amserol, yn effeithlon ac yn deg. Yn hanes y GIG, ni fu erioed fwy o ffocws ar wella ansawdd gwasanaethau iechyd." Y Sefydliad Iechyd (2013:t3).

Ar hyn o bryd, mae ymgyrch gref yng Nghymru i sicrhau bod nyrsys yn cael eu hyfforddi mewn Methodoleg Gwella Ansawdd, gan roi'r sgiliau a'r hyder iddynt allu arloesi a gwella gwasanaethau a gofal, a gweithredu arferion gorau. Bellach, mae byrddau iechyd yng Nghymru yn cynnig hyfforddiant i nyrsys cymwys mewn Gwella Ansawdd ac, fel y corff comisiynu yng Nghymru, mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (yr AaGIC) yn gweithio gyda darparwyr addysg i sicrhau bod pob myfyriwr yn y maes nyrsio a bydwreigiaeth yn ymgymryd â hyfforddiant Gwella Ansawdd fel rhan o'u rhaglenni addysgol.

## Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Datblygu Bydwreigiaeth

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn dyrannu statws Canolfan Cydweithio (CC) i sefydliadau sydd â statws academaidd eithriadol. Yn 2016, dynodwyd Prifysgol Caerdydd gan y Swyddfa Ewropeaidd fel WHOCC ar gyfer datblygu bydwreigiaeth, un o ddim ond dwy ganolfan benodol i fydwreigiaeth yn y byd.

Ym mis Awst 2020, cydnabu WHO Ewrop gyfraniad rhagorol Prifysgol Caerdydd i fydwreigiaeth fyd-eang trwy ei ail-ddynodi'n Ganolfan Cydweithio am y pedair blynedd nesaf.

Mae WHOCC yn darparu cyngor a chefnogaeth i WHO Ewrop yn Copenhagen ac i bencadlys WHO yng Ngenefa. Roedd hyn yn cynnwys cyfrannu at gyhoeddiad pwysig gan WHO sef *Strengthening quality midwifery education for Universal Health Coverage 2030: Framework for action*[14], a lansiwyd yn 72ain Cynulliad Iechyd y Byd yn 2019. Mae'r cyhoeddiad sylweddol hwn gan WHO yn tynnu ar dystiolaeth y Lancet Series sy'n dangos bod addysg fydwreigiaeth gynaliadwy o ansawdd uchel yn arbed bywydau mamau a babanod ar draws y byd.

"Mae trosglwyddo gwybodaeth a datblygu addysg bydwreigiaeth trwy WHOCC yn unigryw – mae'n cynnwys holl aelodau'r tîm addysg bydwreigiaeth yn ogystal â bydwragedd sy'n fyfyrwyr a bydwragedd sydd wedi cymhwyso."

Yr Athro Grace Thomas, Dirprwy Gyfarwyddwr y Ganolfan Datblygu Bydwreigiaeth, Prifysgol Caerdydd

### Offeryn Asesu Bydwreigiaeth ar gyfer Addysg

Mae addysg bydwreigiaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn gallu diwallu anghenion menywod a theuluoedd, yn flaenoriaeth i systemau iechyd sydd am hyrwyddo iechyd i bawb a symud tuag at gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Yn 2020, cyhoeddodd ein WHOCC yr Offeryn Asesu Bydwreigiaeth ar gyfer Addysg (MATE). Mae hwn yn adnodd newydd pwysig i lunwyr polisi ledled y byd. Dyluniwyd yr offeryn i'w ddefnyddio gan wledydd yn ystod camau cynnar eu gwaith cynllunio er mwyn nodi statws, anghenion a chyfeiriad eu haddysg bydwreigiaeth i'r dyfodol.

Cafodd MATE ei dreialu a'i brofi yn y Weriniaeth Tsiec, Lithwania a Bwlgaria, a chafwyd gwerthusiadau cadarnhaol iawn gan addysgwyr bydwreigiaeth a bydwragedd clinigol. Cyhoeddwyd yr offeryn ar wefan WHO Ewrop[15], yn dilyn adolygiad trylwyr, ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Fydwraig ym mis Mai 2020.

"Mae MATE wedi'i gynllunio i alluogi gwledydd i werthuso'u sefyllfa bresennol mewn perthynas ag addysg bydwreigiaeth ac i ystyried pa ddatblygiad sydd ei angen yn y dyfodol, a darperir adnoddau i gefnogi hyn."

Yr Athro Billie Hunter, Cyfarwyddwr y Ganolfan Datblygu Bydwreigiaeth, Prifysgol Caerdydd



“Gwelliant yw dysgu am y system lle rydych chi’n gweithio, profi ffyrdd i wneud iddo weithio’n well i chi, eich tîm, a’r bobl rydych chi’n gofalu amdanynt – i roi’r cyfle gorau iddo lwyddo.”

**Gwelliant Cymru**

## Recriwtio cenhedlaeth o nyrsys anabledd dysgu ar gyfer y dyfodol

*"Os na cheir dealltwriaeth dda o rôl yr unig grŵp proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n benodol i weithio gyda phobl ag anableddau dysgu, beth allai hynny ei olygu i brofiad y rhai ag anableddau dysgu?"*

Paula Hopes, Nyrs Ymgynghorol Anabledd Dysgu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Mae pobl ag anableddau dysgu yn parhau i wynebu anghydraddoldebau iechyd – maen nhw'n marw'n iau na gweddill y boblogaeth ac yn wynebu rhwystrau a gwahaniaethu wrth gyrchu gofal iechyd. Gwaethygwyd hyn ymhellach yn ystod pandemig COVID-19 gyda phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn nodi eu bod yn ofnus, yn cael eu diystyru ac o dan anfantais. Mae defnyddio offer fel y Sgôr Eiddilwch neu lunio penderfyniadau i "beidio â dadebru" mewn modd amhriodol, wedi effeithio ar hyn.

Mae nyrsys anabledd dysgu yn darparu gofal iechyd arbenigol a chefnogaeth i bobl ag anableddau dysgu, gan gefnogi'u hiechyd, eu llesiant a'u cynhwysiant cymdeithasol. Gall fod yn yrfa heriol, amrywiol a gwerth chweil. Fodd bynnag, mae yna gamdybiaethau o hyd ynghylch nyrsio anabledd dysgu, sy'n creu problemau o ran recriwtio cenhedlaeth newydd o nyrsys yn y maes hwn.

Bwriad y prosiect cydweithredol rhwng Prifysgol Bangor a Phrifysgol De Cymru oedd mynd i'r afael â hyn gydag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth, gan gydnabod bod angen tynnu sylw at y cyfleoedd gyrfaol, y boddhad a geir o'r gwaith, yr amrywiaeth o rolau, a'r llwybrau sy'n arwain at nyrsio.

Fe wnaethant gyd-gynhyrchu hysbyseb yn amlygu rôl y nyrs anabledd dysgu a barn y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau anabledd dysgu. Cynhyrchwyd hyn mewn partneriaeth â phobl ag anableddau dysgu, gan olygu bod y negeseuon yn cael eu rheoli gan yr union bobl oedd yn profi cefnogaeth y nyrsys anabledd dysgu.

"Trwy Raglen Gwella Bywydau'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu, bydd Cymru yn parhau i fuddsoddi yn y gweithlu i alluogi gwelliannau cynaliadwy parhaus yn iechyd a llesiant pobl ag anabledd dysgu."

Gillian Knight, Swyddog Nyrsio, Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru

Mae'r bartneriaeth wedi parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o nyrsio anabledd dysgu trwy flogiau a chyfryngau cymdeithasol, gan ddod o hyd i straeon ar gyfer y prosiect "Dyfodol Nyrsio Anabledd Dysgu", a thrwy gyfrannu at ddatblygu Fforwm Nyrsio Anabledd Dysgu sy'n tynnu sylw at werth y rôl a'r mynediad i raglenni nyrsio.

Fe wnaeth Prifysgol De Cymru hefyd dargedu cyn-fyfyrwyr â graddau perthnasol i ddilyn cwrs Diploma Ôl-raddedig, gan dderbyn ceisiadau uniongyrchol i'r rhaglen a lleihau unrhyw rwystrau i'w mynediad. Mae'r brifysgol hefyd yn edrych ar ffyrdd o gefnogi gweithwyr cymorth yn y maes gofal iechyd trwy gynnig llwybrau hyblyg iddynt, a chan ystyried eu haddysg a'u profiad blaenorol.

Mae Prifysgol Bangor a Phrifysgol De Cymru wedi cynyddu cyfleoedd trwy ddarparu dwy ffordd o ymuno â'r rhaglen, a thrwy ehangu mynediad, lledu cyfleoedd, a lleddfu'r pwysau ar leoliadau. Mae hyn wedi arwain at welliant o 25% a 17% yn nifer y rhai sy'n cael eu derbyn ar gyrsiau nyrsio anabledd dysgu.

## Menter dyfarnu broffesiynol

Mae barn broffesiynol nyrsys a'r penderfyniadau clinigol a wnânt yn ddyddiol yn amhrisiadwy wrth ddyrannu adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon, gan leihau risg a hyrwyddo deilliannau cadarnhaol i gleifion.

Mae Deddf Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru) 2016 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Ymddiriedolaethau Bwrdd Iechyd/GIG ddefnyddio dull trionglog, sy'n defnyddio gwybodaeth o dair ffynhonnell: craffter cleifion, dangosyddion ansawdd a barn broffesiynol, i gyfrifo nifer y nyrsys sy'n ofynnol i ddarparu gofal a all ganolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r ffrwd waith pediatreg wedi ymchwilio i ffyrdd o dystiolaethu barn broffesiynol fel rhan o'r dull trionglog ac wedi adolygu ystod o offer sy'n bodoli eisoes. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae arweinydd y prosiect, Dawn Parry, wedi datblygu gêm ford sy'n ymwneud â barn broffesiynol. Mae'r gêm yn rhoi llwyfan i nyrsys archwilio, dysgu a datblygu'u profiadau yn ogystal ag adeiladu ar eu doethineb ymarferol i wella'u barn broffesiynol yn eu lleoliad clinigol.

Mae'r gêm yn darparu cyfle unigryw i nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ymchwilio i'r defnydd a wneir o safbwyntiau proffesiynol a hynny mewn amgylchedd diogel.






Gwneir hyn i gynorthwyo dysgu, hyrwyddo ymarferion myfyriol, galluogi cyfranogwyr i rannu'u profiadau, ac archwilio'r ffactorau amrywiol sy'n dylanwadu ar y modd y llunnir penderfyniadau.

Mae'r gêm wedi'i phrofi a'i mireinio yn dilyn adborth gan fyfyrwyr nyrsio ym Mhrifysgol Caerdydd a chan staff nyrsio ar y rheng flaen. Derbyniodd adborth cadarnhaol gan randdeiliaid ac arddangoswyd enghraifft ohoni yn y Gynhadledd Genedlaethol Staff Nyrsio. Mae'r cyfleoedd ar gyfer datblygu'r gêm yn ddiddiwedd: gellid ei haddasu i'w defnyddio o fewn ystod eang o arbenigeddau nyrsio ac mae ganddi'r potensial i gael ei defnyddio gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.

Mae'r ffrwd waith pediatreg yn cydweithredu ag Accelerate, sef grŵp sy'n cefnogi syniadau newydd ac arloesol y gellir eu haddasu i ofal iechyd. Y nod yw creu'r gêm ac ymchwilio i ffyrdd o'i chymhwyso i gyfrwng digidol. Mae AaGIC hefyd yn ymchwilio i ddatblygu ap i wthio'r gwaith hwn yn ei flaen.

## Nyrsys yn rhoi datblygiadau mewn genomeg ar waith


Mae datblygiadau mewn genomeg yn rhoi'r modd inni ganfod clefyd yn gynharach, dosbarthu afiechydon yn well, targedu triniaethau'n fwy effeithiol, a chynnig rhagor o gyfleoedd i atal afiechydon.

Mae gan nyrsys rôl ganolog wrth gyflawni'r datblygiadau hyn ac wrth wella deilliannau iechyd i unigolion, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau. Maent eisoes yn darparu gofal i gleifion â chyflyrau genetig ac mae rhai yn ymwneud â chynnig profion sgrinio a diagnostig. Bydd y rolau hyn yn cynyddu wrth i genomeg ddod yn fwy canolog ac yn rhan allweddol o "feddygaeth fanwl".

Gan gydnabod bod addysg nyrsio, hyd yn ddiweddar, wedi cynnwys cyn lleied o wybodaeth â phosibl am genomeg, cynhaliwyd arolwg o wasanaethau nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru i asesu'u gallu i weithio yn y maes ar hyn o bryd. Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio gan Bartneriaeth Genomeg Cymru i ddatblygu hyfforddiant clinigol perthnasol ar gyfer staff wrth i ffyrdd newydd o ddefnyddio genomeg ddod yn arferol ym maes gofal iechyd.

Gyda genomeg bellach wedi'i chynnwys o fewn safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, dylid ymgorffori genomeg yn ystyrlon ym mhob rhan o addysg gyn-gofrestru. Mae Cymru yn cefnogi hyn trwy'r wefan Dweud Straeon, Deall Geneteg Bywyd Go Iawn (tellstories.nhs.uk).

Trwy gydarweinyddiaeth y Gynghrair Nyrsio Genomeg Fyd-eang (g2na.org), mae Cymru hefyd yn helpu i arwain y ffordd wrth gefnogi cydweithwyr nyrsio yn rhyngwladol wrth iddynt integreiddio genomeg ar draws ymarfer, addysg, polisi ac ymchwil.



“Y peth mwyaf y gallwn ei wneud dros iechyd yn fyd-eang yw cryfhau arweinyddiaeth nyrsio”

**Yr Arglwydd Nigel Crisp,**
**Cyd-gadeirydd Nursing Now**

# Casgliad

## Myfyrio ar ein cyflawniadau

Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli enghreifftiau o'r ymarferion rhagorol sy'n digwydd ym maes nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru. Mae'n amlwg fod gennym lawer i fod yn falch iawn ohono.

Mae Grŵp Llywio Nursing Now Cymru/Wales wedi bachu ar y cyfle i ddod â chynrychiolaeth o wahanol sectorau ynghyd gan gynnwys y GIG, y byd academaidd, gofal cymdeithasol, cyrff proffesiynol a sefydliadau'r trydydd sector. Mae hyn wedi galluogi pawb i elwa o'r cyfraniadau cyfoethog sy'n deillio o'r cydweithrediad a gafwyd ar draws y sectorau, gan harneisio a hyrwyddo arferion gorau ledled Cymru.

Yn y pen draw, bydd y gwaith hwn yn arwain at well profiadau a chanlyniadau i bobl yn ein cymunedau pan fydd angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal. Trwy ein cydweithrediad â phartneriaid ledled y byd, rydyn ni hefyd yn gwella deilliannau iechyd i bobl y tu hwnt i Gymru.

Yn ogystal â hynny, rydyn ni wedi rhoi pwyslais sylweddol ar ffyrdd o fuddsoddi'n well i sicrhau iechyd, llesiant a thegwch i'n nyrsys, bydwragedd a gweithwyr cymorth, yn awr ac i'r dyfodol. Rydyn ni wedi canolbwyntio ar adeiladu cydnerthedd, cefnogi iechyd gwell, a'r mater pwysig o sicrhau gweithlu sy'n fwy amrywiol a theg.

Trwy ganolbwyntio ar ein pum thema lefel uchel, rydyn ni wedi gallu symbylu ymrwymiad ar draws y sectorau hynny a gynrychiolir yn y Grŵp Llywio. Gellir cysylltu ein holl ffocws yn uniongyrchol â'r materion strategol pwysig a nodwyd yn y *Triple Impact Report* a luniwyd gan y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Iechyd Byd-eang.

## Beth sydd nesaf?

Mae Grŵp Llywio Nursing Now Cymru/Wales wedi magu momentwm ac wedi rhannu profiadau. At hynny, mae ganddo'r awydd parhaus i hyrwyddo a dangos y cyfraniad y mae nyrsys a bydwragedd yn ei wneud bob dydd i wella iechyd a gofal. Iechyd yw ein hased pwysicaf ac mae angen inni ofalu amdano gyda, a thrwy, ein cymunedau.

Mae'r Aelodau wedi mynegi'n unfrydol yr awydd i barhau i weithio ar y cyd trwy'r Grŵp Llywio, sy'n dangos bod y dull hwn o gydweithredu'n cael ei werthfawrogi'n fawr.

Mae'n bryd yn awr inni ddathlu ein cyflawniadau a myfyrio ar sut yr ydyn ni am symud ymlaen a sicrhau mwy o effaith a dylanwad drwy'r hyn a ddysgwyd gennym hyd yma.

# Cyfeiriadau


1 Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Iechyd Byd-eang. *Triple Impact: How developing nursing will improve health, promote gender equality and support economic growth*. Llundain: Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Iechyd Byd-eang, 2016. https://www.who.int/hrh/com-heeg/digital-APPG_triple-impact.pdf?ua=1 (cyrchwyd Ebrill 2021)

2 https://ihcc.publichealthnetwork.cymru/en/working-internationally/nursingnow/

3 Gray BJ, Bright D, Bolton S a Davies AR. *Tuag at weithlu iach a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Iechyd a llesiant presennol y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru.* Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020. https://phw.nhs.wales/publications/publications1/towards-a-healthy-and-sustainable-workforce-for-the-future1/ (cyrchwyd Ebrill 2021)

4 NMC. *Nyrs y Dyfodol: Safonau Hyfedredd ar gyfer Nyrsys Cofrestredig*. NMC, 2018. https://www.nmc.org.uk/standards/standards-for-nurses/standards-of-proficiency-for-registered-nurses/ (cyrchwyd Ebrill 2021)

5 http://www.makingeverycontactcount.co.uk/ (cyrchwyd Ebrill 2021)

6 https://bhmwales.org.uk/black-history-cymru-365-bhc365/ (cyrchwyd Ebrill 2021)

7 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-04/strategic-equality-plan-equality-aims-objectives-actions-2020-2024.pdf (cyrchwyd Ebrill 2021)

8 https://m.facebook.com/story.php?story_fbid=153596949903297&id=104731641246263 (cyrchwyd Mehefin 2021)

9 https://www.npeu.ox.ac.uk/mbrrace-uk/reports/confidential-enquiry-into-maternal-deaths (cyrchwyd Ebrill 2021)

10 https://www.rcn.org.uk/professional-development/nursing-cadet-scheme (cyrchwyd Ebrill 2021)

11 Llywodraeth Cymru. *Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol*. Llywodraeth Cymru, 2018 https://gov.wales/healthier-wales-long-term-plan-health-and-social-care (cyrchwyd Ebrill 2021)

12 Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru, 2020. https://heiw.nhs.wales/files/health-and-social-care-workforce-strategy/workforce-strategy-for-health-and-social-care/ (cyrchwyd Ebrill 2021)

13 The Health Foundation. *Quality improvement made simple: What everyone should know about health care quality improvement*. Llundain: The Health Foundation, 2013.

14 https://www.who.int/maternal_child_adolescent/documents/strengthening-quality-midwifery-education-framework/en/ (cyrchwyd Ebrill 2021)

15 https://www.euro.who.int/en/health-topics/Health-systems/nursing-and-midwifery/news/news/2020/5/new-who-tool-helps-countries-plan-for-a-strengthened-midwifery-workforce (cyrchwyd Ebrill 2021)

